Y Bil Mewnfudo a Lloches:

Cydsyniad deddfwriaethol

Tachwedd 2026

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar farn y Pwyllgor Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a Chyfiawnder Cymdeithasol am y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) sy'n ymwneud â'r Bil Mewnfudo a Lloches a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar 16 Gorffennaf 2026.

1. Y cefndir

1. Cyflwynwyd y Bil Mewnfudo a Lloches (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Mehefin 2026.[1] Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref.

2. Diben y Bil yw:

- creu Awdurdod Apelau Mewnfudo Annibynnol;
- tynhau'r modd y cymhwysir Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- diwygio'r fframwaith deddfwriaethol caethwasiaeth fodern i nodi rhwymedigaethau Llywodraeth y DU;

[1] **Y Bil Mewnfudo a Lloches (fel y'i cyflwynwyd)** [Saesneg yn unig]

- creu mesurau gorfodi'r gyfraith newydd i fynd i'r afael â chamfanteisio a darparu ar gyfer adnabod a chefnogi plant;
- disodli hawliadau lloches/ffoaduriaid a hawliadau diogelwch dyngarol a grantiau caniatâd gydag un model 'amddiffyniad craidd'; a
- sefydlu mecanwaith i'w gwneud yn ofynnol bod ceiswyr lloches sy'n cael llety a ariennir yn gyhoeddus a chymorth arall yn cyfrannu unwaith y byddant yn gallu gwneud hynny.

3. Mae paragraffau 3 i 7 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn crynhoi'r Bil ac yn nodi prif amcanion polisi Llywodraeth y DU.[2]

4. Mae paragraff 8 o'r Memorandwm yn nodi bod Gweinidogion a swyddogion o Lywodraeth Cymru wedi trafod â swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU cyn cyflwyno'r Bil, gan gynnwys ynghylch cynnwys y polisi a'i oblygiadau i ddatganoli, a bod y trafod hwnnw'n parhau.

2. Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

5. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau a ganlyn:

- Mae **cymal 35 o Ran 5** yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i enwebu awdurdod cyhoeddus yng Nghymru i fod yn awdurdod cymwys ("*competent authority*") mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n ymwneud â pherson o dan 18 oed.
- Mae **cymal 41(5)(b)** yn gwneud darpariaeth bellach i awdurdodau cyhoeddus gynnwys Gwarcheidwad Annibynnol Masnachu Plant mewn trafodaethau a phenderfyniadau sy'n ymwneud â phlentyn.
- Mae **cymal 46** yn cymhwyso'r gofynion datganiad caethwasiaeth a masnachu pobl i awdurdodau cyhoeddus gyda chyfanswm cyllideb sy'n bodloni'r gofyniad fel y'i pennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn rheoliadau.

[2] **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mewnfudo a Lloches**

- Mae **cymalau 44, 47, 48 a 49 o Ran 5 ac Atodlen 5** yn ategol i gymal 46, gan ddarparu fframwaith a gofynion ychwanegol y datganiadau caethwasiaeth a masnachu pobl i awdurdodau cyhoeddus.
- Mae **paragraff 2(5) o Atodlen 2** yn diwygio Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025 yn sgil creu'r Awdurdod Apelau Mewnfudo Annibynnol.
- Mae **paragraff 4 o Atodlen 4** yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau er mwyn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys y rhai heblaw'r awdurdod cymwys dynodedig, gymryd rhan yn y fframwaith penderfynu ar gaethwasiaeth fodern, ac i'r awdurdod cymwys roi gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol.

6. Mae Llywodraeth y DU yn nodi bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 44 i 49 ac Atodlen 5, cymal 35 ac Atodlen 4, a pharagraff 2(5) o Atodlen 2. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 45 oherwydd nad yw ond yn gymwys i sefydliadau masnachol ac nad yw'n effeithio ar awdurdodau Cymreig datganoledig.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Mewnfudo a Lloches

7. Mae paragraffau 16 a 17 o'r Memorandwm yn nodi bod cenedligrwydd a mewnfudo yn faterion a gedwir yn ôl.[3]

8. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod ymagwedd gydlynol at fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a gwella gwybodaeth am risgiau caethwasiaeth fodern mewn cadwyni cyflenwi yn bwysig. Mae'n nodi bod y darpariaethau perthnasol yn gyson ar y cyfan â'i safbwyntiau polisi ar wrthgaethwasiaeth a chadwyni cyflenwi moesegol ac y byddai'n cryfhau'r drefn adrodd bresennol yng Nghymru.

9. Fodd bynnag, mae paragraff 18 o'r Memorandwm hefyd yn nodi y byddai'r Bil yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau a dyroddi canllawiau heb gytundeb Gweinidogion Cymru mewn meysydd a allai osod dyletswyddau a chosbau ariannol ychwanegol ar awdurdodau Cymreig datganoledig. Felly, mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn dweud bod angen trafod â Llywodraeth y DU

[3] **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mewnfudo a Lloches**

ymhellach cyn iddi allu argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r darpariaethau hynny.

3. Ystyriaeth y Pwyllgor a'i farn

10. Ar ôl trafod y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 7 Hydref 2026, ysgrifennodd y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad a chafodd ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog a Gweinidog Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol ar 26 Hydref 2026. Yn yr ymateb, mynegodd Llywodraeth Cymru bryderon am ddarpariaethau cymal 35 i ddirprwyo gwneud penderfyniadau ynghylch a yw person o dan 18 oed yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern i awdurdodau lleol yng Nghymru. Amlinellodd y Dirprwy Brif Weinidog bryderon am "y llwyth gwaith a'r gallu posibl i awdurdodau lleol Cymru ymgymryd â'r rolau hyn" ac ychwanegodd nad oedd canlyniad asesiad beichiau Llywodraeth y DU ar gael eto.

11. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar drefniadau i osod Gwarcheidwaid Annibynnol Masnachu Plant ar sail statudol a sut effaith fyddai ar wasanaethau i blant yng Nghymru pe bai'r Senedd yn gwrthod rhoi cydsyniad. Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weinidog y gallai gwrthod rhoi cydsyniad roi'r gwasanaeth Gwarcheidwaid Annibynnol Masnachu Plant sy'n cael ei redeg gan Barnardo's mewn perygl yng Nghymru.

12. Yn olaf, gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar y trafodaethau â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r ddarpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol osod dyletswyddau a dirwyon ar Awdurdodau Cymreig Datganoledig a gwneud rheoliadau a chanllawiau heb gytundeb Gweinidogion Cymru. Cadarnhaodd yr ymateb fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am newid y Bil a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi eu cydsyniad i'r rheoliadau ac iddynt gael eu cynnwys fel ymgyngoreion gorfodol. Nid yw ymateb Llywodraeth y DU i'r cais hwn wedi dod i law eto.

13. Trafodwyd y Memorandwm ymhellach yn ein cyfarfod ar 4 Tachwedd 2026. Ailadroddodd Aelodau fod angen rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r goblygiadau o ran adnoddau ac effaith dirprwyo cyfrifoldebau i awdurdodau Cymreig datganoledig, ac eglurder ynghylch y fframwaith a'r cynllun gweithredu i sicrhau bod pob plentyn yn cael cymorth o safon.

Ein barn ni

Ynghylch a oes angen cydsyniad

Cytunwn â barn Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chymalau 35, 41(5)(b), 46, 44, 47, 48 a 49 o Ran 5 ac Atodlen 5, paragraff 2(5) o Atodlen 2 a pharagraff 4 o Atodlen 4.

Casgliad 1. Mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymalau 35, 41(5)(b), 46, 44, 47, 48 a 49 o Ran 5 ac Atodlen 5, paragraff 2(5) o Atodlen 2 a pharagraff 4 o Atodlen 4.

Ynghylch nodau cyffredinol y Bil

Mae'r Pwyllgor yn nodi nodau cyffredinol y Bil a barn Llywodraeth Cymru bod y Bil yn gyson ar y cyfan â safbwyntiau polisi Llywodraeth Cymru ar wrthgaethwasiaeth a chadwyni cyflenwi moesegol.

Er bod y Pwyllgor yn cydnabod nad ei rôl yw craffu ar amcanion polisi'r Bil, mae'n dymuno nodi'r pryderon a nodir ym mharagraff 4 o'r Memorandwm a godwyd gan sefydliadau sy'n cefnogi dioddefwyr, sef canlyniadau anfwriadol y Bil, a allai effeithio ar y gallu i gefnogi gwir ddioddefwyr, a dod â throseddwyr i gyfiawnder.

Ynghylch a ddylai'r Senedd roi cydsyniad deddfwriaethol

Nid ydym yn gwrthwynebu rhoi cydsyniad mewn cysylltiad â chymalau 41(5)(b) a pharagraff 2(5) o Atodlen 2.

Rydym yn ddiolchgar i'r Dirprwy Brif Weinidog am ei llythyr dyddiedig 26 Hydref. Rydym yn cytuno bod angen rhagor o fanylion am effaith bosibl cymal 35 ar awdurdodau lleol a byddem yn croesawu mwy o sicrwydd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn hynny o beth.

Dylai hyn gynnwys ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU rannu'r asesiad beichiau â Llywodraeth Cymru o leiaf.

Nodwn hefyd y pwerau helaeth a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau gan gymalau 44, 46, 47, 48, 49 a pharagraff 4 o Atodlen 4. Nodwn y bydd y pwerau hyn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol o bosibl osod dyletswyddau a dirwyon newydd ar awdurdodau Cymreig datganoledig heb ymgynghori â Gweinidogion Cymru na cheisio eu cydsyniad. Nodwn ymhellach geisiadau Llywodraeth Cymru am welliannau i'r Bil i unioni hyn ac nad yw safbwynt Llywodraeth y DU mewn ymateb yn hysbys eto.

Rydym yn dod i'r casgliad felly fod angen i Lywodraeth y DU ymateb i'r ddau fater cyn y gall y Pwyllgor argymell a ddylid rhoi cydsyniad ai peidio.

Casgliad 2. Nid yw'r Pwyllgor yn bwriadu gwneud argymhelliad ar gydsyniad nes bod yr effaith bosibl ar awdurdodau lleol yn cael ei deall yn well a bod ymateb Llywodraeth y DU i'r newidiadau a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru i bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau yn hysbys. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am y ddau fater hyn cyn gofyn i'r Senedd wneud penderfyniad ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.